



Ein cyf: MA/JJ/0597/20

At:

Arweinwyr Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:

Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

25 Chwefror 2020

Annwyl Gydweithwyr

Mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, rwy'n cyhoeddi heddiw fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol 2020-21 ar gyfer cyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwyf yn cadarnhau fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd llywodraeth leol ar gyfer 2020-21 yn £4.474 biliwn. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 4.3 y cant yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2020-21 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol.

Rhodddwyd ystyriaeth ofalus i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y setliad dros dro cyn penderfynu ar y setliad terfynol. Ni wnaeth yr ymatebion dynnu sylw at unrhyw faterion oedd yn gofyn am newid y dull gweithredu ar gyfer y setliad terfynol.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o gynnwys cyllid gwaelodol ar gyfer y setliad hwn, ond fel y trafodwyd yng nghyfarfod yr Is-grŵp Cyllid ar 5 Chwefror, gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyllideb eleni, penderfynwyd dyrannu'r holl gyllid oedd ar gael yn ystod y cam dros dro. Hefyd, gan y bydd y setliad hwn yn golygu bod pob awdurdod yn gweld cynnydd o 3% o gymharu â 2019-20 ar sail tebyg at ei debyg, rwyf wedi penderfynu peidio â chyflwyno cyllid gwaelodol yn yr achos hwn.

Bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer 2020-21 yn parhau i fod yn £198 miliwn (gan gynnwys £20 miliwn ar gyfer grant ailwampio priffyrdd cyhoeddus). Rwy'n gobeithio y bydd y cyllid hwn yn eich galluogi i ymateb i'r angen i ddatgarboneiddio ar frys, yn sgil yr argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a nifer o gynghorau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol terfynol a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y setliad terfynol yn ôl awdurdod lleol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r wybodaeth a gyhoeddwyd wrth ochr y setliad dros dro, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Is-grŵp Dosbarthu i gynhyrchu tabl sy'n ceisio egluro'r amrywiad drwy edrych ar elfennau sy'n newid o fewn y model. Bydd yn cael ei gyhoeddi wrth ochr y setliad terfynol.

Caiff awdurdodau lleol eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rhaid i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2020-21.

Mae'r setliad terfynol hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio eich cyllidebau a'ch gwasanaethau ar gyfer 2020-21 fel rhan o'ch cynlluniau ariannol tymor canolog.

Byddwn yn parhau i drafod yn gadarnhaol gyda llywodraeth leol ar bob mater yn ymwneud â chyllid drwy'r Is-grŵp Cyllid.

Bydd y Llywodraeth nawr yn symud ymlaen i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Rhif 1 ar gyfer 2020-21 i'w drafod yn y Senedd ar 3 Mawrth 2020.

Yn gywir



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government